**BWRDD CYD LYWODRAETHU**

**6 Medi 2023 @ 10:00**
**AR-LEIN**

**PRESENNOL:**

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid SCHTh **(Cadeirydd)**
Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio[RB]James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Allan Rainford, Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio [AR]
Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol[SH]
Jonathan Maddock, TIAA [JM]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Sian Jones, Cydlynydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Anne Matthews, Swyddog Cyllidebau a Chyllid [AM]
James Sutton, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes [JS]
Angharad Jones, Cynorthwyydd Gweithredol (Cofnodion)

**YMDDIHEURIADAU:**

Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [CCA]
Simon Williams, Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol
Sarah Davies, Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Cyllid
Phil Kenyon, Gwasanaethau Cyfreithiol
Stephanie Maddix, CP CCPSH

**359. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 28 MEHEFIN 2023**

Gwnaeth y bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

**360. COFNOD GWEITHREDIADAU**

Gweler y cofnod gweithrediadau ar wahân am ddiweddariadau.

**361. DIWEDDARIAD AR GYFRIFON TERFYNOL – CYFLWYNIAD / ADRODDIAD NARATIF / DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL / RHAGOLWG**

Diweddarodd y Pennaeth Cyllid y Bwrdd ar gwblhau cyfrifon 2022/23.

Adroddwyd fod mis ychwanegol wedi'i gymryd a chymeradwywyd y cyfrifon drafft ddiwedd mis Mehefin. Mae'r cyfrifon drafft bellach yn fyw ar wefan SCHTh.

**Gweithrediad: Cylchredir dolen i'r Cyfrifon drafft at aelodau'r CA er gwybodaeth.**

Mae'r Tîm Cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd hefo Archwilio Cymru cyn yr archwiliad cyfrifon ffurfiol. Yr wythnos nesaf, byddant yn cyfarfod swyddog Archwilio Cymru a fydd yn ymgymryd yr archwiliad. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod y CA ddiwedd mis Medi a'r bwriad ydy bod y cyfrifon yn barod i'w cymeradwyo yng nghyfarfod CA mis Rhagfyr.

Holodd AR os ydy RAAC yn fater mawr o fewn Heddlu Gogledd Cymru ac a fydd hyn yn effeithio prisiadau stad ac a amlygir o fewn y cyfrifon.

Y Pennaeth Cyllid i drafod hefo'r Pennaeth Cyfleusterau a Stadau pan maent yn ôl yn y swyddfa er mwyn egluro a gosod datganiad o fewn y cyfrifon os oes angen.

**Gweithrediad: GE i drafod hefo'r Pennaeth Cyfleusterau a Stadau os ydy RAAC wedi'i ganfod o fewn stad Heddlu Gogledd Cymru**

Holodd RB a ydy'r cyfarfod CA i fod ym mis Hydref wedi'i amseru'n iawn. Cadarnhaodd GE fod amseru'n iawn am ddiweddariad gwaith a ymgymerwyd. Gall hefyd amlygu unrhyw faterion sy'n codi hefo'r cyfrifon.

**362. a) ADOLYGIAD O ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**
**b) ADOLYGIAD O FATERION CYHOEDDIADAU GAN ARCHWILIO MEWNOL**

Diweddarodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau'r cyfarfod ar holl waith archwilio sydd wedi'u trefnu/cwblhau.

Materion yn codi ers cyhoeddi'r adroddiad ydy:

- Mae archwiliad y llyfr cyfrifon cyffredinol wedi'i gwblhau a derbyniwyd sicrwydd sylweddol.
- Uned Rheoli Rhanbarth y Dwyrain – gellir cwblhau hyn cyn cyfarfod y CA ond dal yn disgwyl rhai ymatebion.
- Mae archwiliad caffael wedi'i gwblhau a bellach mewn fformat drafft. Derbyniwyd sicrwydd rhesymol ac mae o dan ystyriaeth ar hyn o bryd.
- Rhoddwyd dyddiadau newydd ar gyfer archwiliad credydwyr ac mae'n debygol o ddigwydd ym mis Rhagfyr 2023.
- Mae archwiliad Asedau Sefydlog yn digwydd o fewn yr wythnosau nesaf.
- Bydd eiddo'n destun codi pris yn digwydd ym mis Chwefror 2024.
- Rheoli Absenoldeb AD wedi'i wneud a rhoddir sicrwydd cyfyngedig. Mae saith argymhelliad i fod i'w gweithredu cyn diwedd mis Medi. Yn gobeithio derbyn diweddariadau erbyn diwedd yr wythnos.

Iechyd a Diogelwch – mae argymhellion yn weddill erbyn mis Mehefin 2023. Mae gwaith yn parhau ac mae cynlluniau gwersi yn cael eu datblygu ac mae gwaith yn parhau ar draws bob maes.

Adroddwyd fod gwaith ynghylch Iechyd a Diogelwch yn mynd i fod yn barhaus a holwyd aelodau am eu barn.

Hysbysodd GE fod gweithrediadau/materion yn cael eu hoedi oherwydd newid mewn polisi a bydd gweithrediadau'n treiglo. Adroddwyd y byddai'n ddefnyddiol cyrraedd lefel boddhad a fyddai'n bodloni angen TIAA.

Cytunodd Archwilio Mewnol ei bod yn gwneud synnwyr ymestyn dyddiadau cau tan archwiliad dilynol mis Chwefror gan fod gwaith yn parhau. Os gellir gweld cynnydd, bydd Archwilio Mewnol yn fodlon cymeradwyo cyn cwblhau.

**Gweithrediad: AM i adolygu argymhellion dyddiad dyledus Rheoli Iechyd a Diogelwch i fis Chwefror 2024.**

Adroddwyd fod y Coleg Plismona'n arbrofi cwrs hyfforddi newydd ym mis Ionawr. Ond fel cwrs newydd, bydd yn arbrawf yn y lle cyntaf.

Nododd RB fod y Cydbwyllgor Archwilio yn gweld hyn fel newid diwylliannol. Roeddent yn siomedig nad ydy amserlenni'n cael eu bodloni ac angen deall a ydy'r sefydliad sicr fod cynnydd yn cael ei wneud a'i bod yn sefyllfa sy'n gwella. Os na ellir cynnydd, mae angen sicrhau fod risg yn llai o fewn y sefydliad a bod y sefyllfa'n parhau i gymeradwyo.

Adroddodd AM fod gan y Prif Gwnstabl newydd ddiddordeb yn y pwnc hwn ac wedi gofyn am ddiweddariadau chwarterol gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

AM i gysylltu hefo'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch er mwyn gweld os oes gwelliant ar draws y sefydliad.

**Gweithrediad: AM i gysylltu hefo'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch er mwyn cael sicrwydd y gwellir ar draws y sefydliad.**

Holodd RB os amlygir cerrig milltir hefyd er mwyn sicrhau fod cynnydd yn cael ei wneud a chyflawnir y dyddiad cau. Bydd AM yn rhoi adroddiad rheolaidd i'r Cydbwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Llywodraethu.

**363. RÔL SWYDDOG MONITRO AR GYFER YR HEDDLU**

Yn absenoldeb PK, hysbysodd SH y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion monitro HGC a SCHTh er mwyn trafod materion sy'n codi.

Dywedodd RB ei bod yn fodlon hefo hyn, a'i bod yn ffordd dda ymlaen.

Holodd AR a oedd y rôl hon yn goresgyn unrhyw wendidau o fewn y sefydliad neu os mai ffurfioldeb oedd y rôl hon.

Adroddodd KJ mai'r heddlu oedd yr unig awdurdod lleol sydd ddim hefo swyddog monitro. Mae'r rôl hon yn cryfhau swydd PK os oes unrhyw anghydfod rhyngddo ef a rheolwyr yr heddlu. Bydd y rôl hon yn ychwanegol at y cryfder sydd eisoes mewn lle ac yn addas i'r diben.

**364. DIWEDDARIADAU O'R ADOLYGIAD LLYWODRAETHU**

Diweddarodd SJ y cyfarfod ar y cynnydd a wnaed hefo adolygiad llywodraethu 2023 a'r argymhellion sy'n codi.

Ceir y cynllun gweithredu o fewn yr adroddiad. Mae SJ ar hyn o bryd yn gweithio er mwyn sefydlu cyfarfodydd strategol er mwyn edrych dros yr hyn sy'n digwydd o fewn yr Heddlu. Mae'n gobeithio cael strwythur llywodraethu mewn lle ac wedi'i weithredu erbyn diwedd y mis.

Dywedodd RB y nodir gweithrediadau o fewn y papur a ddylai fod wedi'u cyflawni a'i fod â dyddiad cau sef 30 Awst. Ceisiwyd cael eglurder ynghylch y dyddiadau gweithredu ac os ydynt wedi'u cwblhau.

Nododd SJ fod gwyliau blynyddol wedi effeithio dyddiadau ond dylai'r mwyafrif fod wedi cyrraedd erbyn diwedd mis Medi, yn enwedig o ran gweithredu'r strwythur llywodraethu.

Holodd RB os diweddarir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid y diweddarir hyn dros y misoedd nesaf. Ceisir gwneud hyn erbyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref.

**Gweithrediad: GE/KJ/SP i ddiweddaru'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol erbyn cyfarfod diweddaru cyfrifon Cydbwyllgor Archwilio mis Hydref.**

Nododd RB y byddai gan y CA ddiddordeb deall y cyfnod adolygu a sut mae llwyddiant yn cael ei fonitro rhwng rŵan a'r adolygiad nesaf.

Hysbysodd SJ fod y cyfnod adolygu nesaf i fod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024. Bydd gan y porthor ddealltwriaeth dda am y broses a bod y cyfarfodydd yn gwneud yr hyn maen nhw i fod. Gofynnir am adborth hefyd wrth i'r broses hon esblygu a bydd hyn yn adolygiad parhaus.

**Gweithrediad: Yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu nesaf, mae SJ i roi diweddariad ar sut mae'r broses yn gweithio a bod sicrwydd yn cael ei roi.**

Dywedodd JS fod y cynllun yn edrych yn gwbl wahanol, ac roedd hyn er mwyn ei gwneud hi'n amlwg yn weledol sut mae'r canlyniadau allweddol yn cael eu mapio i lywodraethu ac i'r gwrthwyneb. Mae'r mapio'n wahanol iawn, ac mae rhai meysydd wedi'u symleiddio. Cynhelir cyfarfodydd yn fisol er mwyn sicrhau fod gwaith yn symud ymlaen, ac y derbynnir sicrwydd fod pawb ar waith hefo gweithrediadau.

Holodd RB sut mae adroddiadau'n dod i sylw'r Prif Gwnstabl gan nad ydy hyn yn glir o fewn y diagramau a grëir ac felly nid yw'n glir o safbwynt y Cydbwyllgor Archwilio ac nid yw'n rhoi sicrwydd angenrheidiol.

Hysbysodd JS nad oes un diagram sy'n cwmpasu hyn a bod mapiau eraill ar gael sy'n rhoi'r sicrwydd hwn.

Holodd AR a fydd adolygiad o'r adolygiad dirprwyo yn cwmpasu'r rheoliadau ariannol. Hysbysodd KJ fod y Rheoliadau Ariannol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac y byddai'n arferol i'r cynllun dirprwyo gydymffurfio hefo'r Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Caniatâd, yn hytrach na fel arall. Fodd bynnag, os nodir unrhyw broblemau, yna byddai rhaid iddynt gael eu hadolygu'n gynt.

Hysbysodd GE mai'r gobaith ydy y bydd Cadeiryddion cyfarfodydd bellach yn gallu ail-flaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau o fewn y cyllidebau maen nhw wedi cael eu dyrannu.

**365. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)**

Amlygodd SJ y gwaith sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf a chadarnhaodd fod y Bwrdd Sicrwydd yn parhau cyfarfod bob mis.

Mae'r datganiad Parodrwydd Risg diweddaraf wedi'i gwblhau ac fe'i ceir o fewn y papurau er mwyn cael trafodaeth/er gwybodaeth yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.

**366. GWERTHUSIAD Y CA**

Yn absenoldeb SP, ystyriwyd y papur fel ei fod wedi'i ddarllen.

Hysbysodd RB fod ei sylwadau wedi'u hystyried, ond nad oedd sylwadau SH a KJ wedi'u hymgorffori eto.

**Gweithrediad: Mae angen diweddaru'r papur hefo sylwadau ychwanegol cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.**

**367. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

Cymerwyd fod y papur wedi'i ddarllen ac ni chodwyd sylwadau.

**368. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN**

Cymerwyd fod y papur wedi'i ddarllen ac ni chodwyd sylwadau.

**369. UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.

**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF:**

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023**
Dydd Iau 29 Chwefror 2024
Dydd Mawrth 18 Mehefin 2024
Dydd Mercher 4 Medi 2024
Dydd Mawrth 29 Hydref 2024